

Y CARIAD RHYFEDDOL

Adnodau agoriadol:

'Molwch yr Arglwydd, yr holl genhedloedd;

Clodforwch, yr holl bobloedd.

Oherwydd mae ei gariad yn gryf tuag atom,

ac y mae ffyddlondeb yr Arglwydd dros byth.

Molwch yr Arglwydd.'

'Ond prawf Duw o'r cariad sydd ganddo tuag atom ni yw bod Crist wedi marw drosom pan oeddem yn dal yn bechaduriaid.'

Emyn: 190 – *Rhyfeddol a rhyfeddol*

Darlleniad: Salm 98
Rhufeiniaid 5: 1-11

Emyn: 312 – *O nefol addfwyn Oen*

Llefarydd:

Fe seiliwn ein myfyrdod heddiw ar adnod gan yr apostol Paul yn ei lythyr at Gristnogion yr Eglwys yn Rhufain - y bumed bennod a'r wythfed adnod:

'Eithr y mae Duw yn canmol ei gariad tuag atom, oblegid a nyni eto yn bechaduriaid i Grist farw drosom ni'

neu yn ôl y Cyfieithiad Newydd,

'Ond prawf Duw o'r cariad sydd ganddo tuag atom ni yw bod Crist wedi marw drosom pan oeddem yn dal yn bechaduriaid.'

Yn yr adnod hon, rydym yn dod wyneb yn wyneb â dwy ffaith fawr bywyd, sef y ffaith drist fod dyn yn bechadur, a'r ffaith fendigedig fod Duw yn Dduw cariad. Fe ddatguddiodd ei gariad tuag atom yn Iesu Grist a fu farw drosom ar Groes Calfaria. Yn naturiol, y mae hyn i ni, sy'n credu yn ei enw, yn destun diolch a syndod diddiwedd. Wrth gwrs, y mae digwyddiadau eraill ym mywyd Iesu Grist yn destun rhyfeddod

mawr. Er enghraifft, ei eni i deulu tlawd ym Methlehem Jwdea. Fe gyfansoddodd y bardd Saesneg, John Milton, awdl am ryfeddod geni Mab Duw yn faban bach, ac yn ôl yr ymateb a gafodd, fe lwyddodd i gyfleu rhyfeddod yr Ymgynawdoliad. Ond wrth geisio cyfansoddi awdl am farwolaeth Mab Duw, teimlai Milton fod yr hyn a ddigwyddodd ar groes Calfaria y tu hwnt i eiriau ac amgyffrediad dyn. Yr un oedd profiad Williams Pantycelyn;

*Mae yma ryw ddirgelion,
Rhy ddyrys ynt i ddyn,*

Onid yw'r profiad o anallu i ddeall ac i gyfleu mewn geiriau yn wir am nifer o brofiadau bywyd? Onid yw'n anodd egluro cariad ar lefel ddynol heb sôn am gariad Duw? Er enghraifft, ein cariad tuag at ein cyfar - tuag at ein plant, a'n plant tuag atom ni. Mae cynhesrwydd ac angerdd ein cariad tuag at ein gilydd fel teuluoedd yn ddwfn, ac y mae'n anodd rhoi mynegiant geiriol i'r hyn a deimlwn tuag atynt. Os yw hyn yn wir am gariad dynol, onid cymaint mwy yw'r dasg o egluro cariad Duw tuag atom yn Iesu Grist?

Er hynny, credai Paul, fel apostol i'r Arglwydd Iesu, mai ei fraint a'i gyfrifoldeb oedd cenhadu'r Efengyl i bobl ei oes, a'u cael i ymateb ac i gofleidio'r cariad mwyaf rhyfedd fu erioed.

Gweddïwn.

(a)

Wrth inni blygu pen i weddïo, *“bydded ymadroddion ein genau a myfyrdod ein calon yn gymeradwy ger dy fron, O Arglwydd, ein Craig a'n Prynwr”*. O Arglwydd, plygwn i'th addoli fel y gwir a'r bywiol Dduw. Ti yw Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, a thi yn unig sy'n deilwng o'n haddoliad. Am hynny, *“Fy enaid, bendithia'r Arglwydd, a'r cyfan sydd yn of ei enw sanctaidd ef.”*

Yn ein haddoliad, diolchwn iti, ein Tad am y fendith rydym wedi ei derbyn eisoes yn yr oedfa hon. Dy bresenoldeb di sy'n troi cyfarfod â'n gilydd yn gymundeb â'n gilydd ac â thi dy hun yn Iesu Grist. Gweddïwn ar iti

gadarnhau hyn yn ein meddyliau a'n calonnau, fel y byddom yn wir addolwyr ac yn blant i ti, ein Tad.

*O Arglwydd Dduw, y Brenin mawr,
dy fendith dyro inni nawr:
rho inni'r fraint ar hyn o bryd
yn d'ysbryd i'th addoli 'nghyd.*

Diolchwn, ein Tad, am yr adnabyddiaeth sydd gennym ohonot ym mherson dy fab Iesu Grist. Fe gofiwn ei eiriau, “*Y mae'r sawl sydd wedi fy ngweld i wedi gweld y Tad.*” Bendigwn dy enw mai hyn oedd tystiolaeth y rhai a welodd dy fab Iesu yn nyddiau ei gnawd, “*a ni a welsom ei ogoniant ef, ei ogoniant fel unig Fab yn dod oddi wrth y Tad.*” Yn y gwasanaeth hwn, cynorthwya ni i dreiddio'n ddyfnach i adnabyddiaeth o'th fab Iesu, a'i dderbyn yn Waredwr ac yn Arglwydd ein bywyd. Cydnabyddwn na allwn byth ddirnad yn llawn fawredd person Iesu Grist a'i aberth drud ar Galfaria, ond fe wyddom, ac fe gredwn, ein Tad, mai ynddo ef y datguddiaist dy gariad anfeidrol tuag atom. Yn y gwasanaeth hwn, gweddiwn ar iti ein tywys i lwybr dy fendith. Crea ynom ysbryd edifeiriol am ein pechodau, ac ysbryd ymddiriedaeth ym meddyginiaeth dy gariad, fel y cawn obaith newydd i'n heneidiau a heddwch cydwybod o'n mewn.

*Cael heddwch cydwybod, a'i chlirio trwy'r gwaed,
A chorff y farwolaeth, sef pechod, dan draed.*

(b)

Yn ein gweddiâu, cyflwynwn i'th ofal grasol ein gilydd a'n cyd-aelodau, ein cyfeillion a'n cymdogion, a'n hanwyliaid. Cynorthwya ni i gredu nad oes neb y tu allan i gylch dy gariad. O Dad nefol, taena d' adain yn dyner dros dy blant ymhob man, yn arbennig y rhai sy' mewn sefyllfaoedd anodd - yn wael eu hiechyd, yn isel eu hysbryd, ac yn ofni'r diwedd.

*Tydi yn unig ŵyr
holl gystudd plant y llawr,
y rhai sy'n crefu am yr hwyr,
yn griddfan am y wawr.*

Clyw ein gweddïau yn drugarog, a chwyd ni oddi ar ein gliniau yn gryfach Cristnogion, ac yn barotach ein hysbryd i'th wasanaethu, fel y byddom, nid yn unig yn wrandawyr dy Air, ond yn weithredwyr dy Air. Ac i'n Gwaredwr Iesu Grist y byddo'r clod a'r gogoniant, yn awr, a hyd byth. Amen

Emyn: 305 – *'Rwy'n dewis Iesu a'i farwol glwy'*

Llefarydd:

Wrth fyfyrion ar natur Duw yn Iesu Grist, rydym yn ymwybodol fod agweddau eraill i Dduw yr un mor amlwg â'i gariad, megis ei allu rhyfeddol yn ei greadigaeth. Y mae'r cynryfiadau sy'n digwydd yn y cread, megis grym y fellten a sŵn y daran, a grym y ddaeargryn yn amlwg iawn, ac yn tystio i allu aruthrol Duw'r Creawdwr. Ond er mor aruthrol fawr ac ardderchog yw'r greadigaeth, nid yw'n dweud popeth wrthym am Dduw. Yn wir, y mae rhai pethau sy'n digwydd yn y greadigaeth ac ym myd natur yn anodd eu deall, yn arbennig yng nghyd-destun ein cred fod Duw yn Dduw trugarog a chariadlawn.

Onid yw'r ffarmwr, er enghraifft, wedi gweld fwy nag unwaith ŵyn bach ar lawr, a'u llygaid wedi eu pigo allan o'u pennau gan frain ysglyfaethus? Ym myd natur, nid oes trugaredd i'w gael, ac yn amlach na pheidio, y mae'r hen ddywediad yn cael ei wireddu, *'Trechaf treisied, gwanaf gwaedded.'*

Fel y ffarmwr, y mae'r meddyg a'r nyrs yn gweld pobl yn dioddef afiechydon creulon, ac y mae gweld braw a gofid ar wyneb anwyliaid yn brofiad dwys iawn. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, y mae cwestiynau dyrys yn mynnu brigo i'r wyneb, megis sut y gallwn ddweud fod Duw yn Dduw cariad a pha brawf a sicrwydd sydd gennym fod hyn yn wir? Wel, yn y bennod gyfoethog hon, y mae Paul yn rhoi ei ateb, ac yn gwneud hynny drwy gysylltu cariad Duw â pherson Iesu Grist a fu farw drosom ar groes Calfaria.

Emyn: 300 – *Mae cariad Crist uwchlaw pob dawn*

Llefarydd:

Y mae ambell un ohonom, o bosib, wedi gofyn pam yr aeth Iesu i'r groes a dioddef y fath benyd? Wedi'r cyfan, nid oedd yn rhaid iddo fynd i Jerwsalem lle gwyddai fod ei elynion yn cynllwynio yn ei erbyn. Gŵr ifanc ydoedd yn llawn asbri a bywyd, ac fel pob gŵr ifanc roedd y reddf i fyw yn gryf ynddo, ac yn sicr, nid oedd yn chwennych merthyrdod. Ond er hynny, fe benderfynodd fynd i Jerwsalem. Meddai wrth ei ddisgyblion *'Nid oes neb yn dwyn fy einioes oddi arnaf, ond myfi sydd yn ei doddi i lawr ohonof fy hun.'* Ond pam cymryd y llwybr hwn? Pam na fyddai'n osgoi'r cyfan a mynd yn ôl yn ddistaw i Nasareth yn hytrach na mynd yn fwriadol i Jerwsalem ac i'w farwolaeth ar groes? Y mae cwestiynau lu yn mynnu dod i'r meddwl, ac y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dechrau gyda'r cwestiwn 'pam'? Wel, does ond un ateb. Fe aeth i'r groes oherwydd ei gariad diymollwng tuag atom. Ie, dynion pechadurus fel ni a'i lladdodd, ond ei gariad a'i gyrodd i'r groes. Yng ngeiriau'r emynydd,

*Ei gariad Ef a'i gyrodd
i chwerw farw o'i fodd.*

I'r Cristion, dyma'r prawf mwyaf o gariad Duw, neu fel y dywed yr apostol Paul, *'Ond prawf Duw o'r cariad sydd ganddo tuag atom ni yw bod Crist wedi marw drosom pan oeddem yn dal yn bechaduriaid.'*

Mae gan y diweddar Barchedig T. Glyn Thomas, ysgrif dan y teitl, 'Bendithion Dioddefaint.' Mae'n deitl od, ac eto, onid bendithion gras a chariad Duw a estynnodd Iesu Grist i ni drwy ei farwolaeth ddrud? Yn fyr, nodwn dair o fendithion dioddefaint y Groes.

Yn gyntaf, bendith ysbryd edifeirwch.

Onid profiad y sawl sy'n ymateb i'r Crist croeshoeliedig yw sylweddoli ei gyflwr a'i angen, a chael ei blygu mewn edifeirwch? Nid oes cyflwr mwy anobeithiol na phechadur hunan gyfiawn, ac nid oes cyflwr mwy gobeithiol na phechadur edifeiriol yn ymateb i gariad Duw yn Iesu Grist.

Yn ail, bendith maddeuant pechodau.

Dywed Ioan, "Os cyffeswn ein pechodau, y mae ef yn ffyddlon ac yn gyfiawn, ac felly fe faddeua inni ein pechodau, a'n glanhau o bob anghyfiawnder."

Pan fyddwn wedi brifo ffrind drwy ddweud rhywbeth cas wrtho, a'r ffrind hwnnw yn estyn i ni ei faddeuant, y mae'n brofiad o ryddhad mawr. Mae derbyn maddeuant yn rhoi cyfle newydd inni adnewyddu perthynas unwaith eto. Wel, onid newyddion da'r Efengyl yw bod Duw wedi darparu ffordd edifeirwch a maddeuant ar ein cyfer yn Iesu Grist? Ac oni wnaeth hyn nid oherwydd ein bod yn haeddu hynny, ond oherwydd ei gariad diymollwng tuag atom?

Yn drydydd, bendith iachâd ysbrydol.

Dywed Paul, '*Gan mor gyfoethog yw Duw yn ei drugaredd, a chan fod ei gariad mor fawr tuag atom, fe'n gwnaeth ni, ni oedd yn feirw yn ein camweddau, yn fyw gyda Christ; trwy ras yr ydych wedi eich achub.*' Y mae iachâd ysbrydol yn rhodd oddi wrth Dduw ei hun, ac nid oes dim y gallwn ei wneud i ennill ac i haeddu'r waredigaeth hon. Yr unig beth y gallwn ei wneud yw credu yn Iesu Grist ac ymateb i feddyginiaeth ei gariad yn ddiolchgar. Disgrifir y feddyginiaeth hon yn rymus iawn gan Williams Pantycelyn;

*Fe ddaeth i wella archoll
Drwy gymryd clwyf ei hun,
Etifedd nef yn marw
I wella marwol ddyn;
Yn sugno i maes y gwenwyn
A roes y sarff i ni,
Ac wrth y gwenwyn hwnnw
Yn marw ar Galfarî.*

Llefarydd:

Yn ei lyfr 'Ymarfer i Dduwioldeb' y mae gan Lewis Bayly, un o'r Piwritaniaid, sgwrs ddychmygol rhwng y Cristion a'r Crist Croeshoeliedig. Yn y sgwrs, mae'r Cristion yn gofyn cwestiynau, ac y mae Crist yn eu hateb.

Cwestiwn cyntaf y Cristion yw:

'Arglwydd, pam wnest ti oddef dy godi ar y groes?'

Ateb Crist yw:

'Fel y gallwn dy godi di o bwll anobaith dy bechod.'

Ail gwestiwn y Cristion:

'Arglwydd, pam yr hoeliwyd dy ddwylo a'th draed i'r groes?'

Ateb Crist yw: ***'Er mwyn imi agor dy ddwylo i wneuthur gweithredoedd cyfiawnder, ac er mwyn imi ollwng dy draed yn rhydd i rodio ffordd tangnefedd.'***

Trydydd cwestiwn y Cristion:

'Arglwydd pam y goddefaist i'th ddwylo gael eu hoelio ar led?'

Ateb Crist yw:

'Fel y gallwn dy gofleidio di yn fwy cariadus.'

A'r cwestiwn olaf:

'Arglwydd, pam agorwyd dy ystlys â gwaywffon?'

Ateb Crist yw:

'Er mwyn i ti gael ffordd i ddod yn nes at fy nghalon.'

Dywedwyd ar ddechrau ein myfyrdod fod yr hyn a ddigwyddodd ar Groes Calfaria y tu hwnt i'n hamgyffrediad. Er hynny, fe wyddom mai dirgelwch cariad Duw oedd ar waith yn y Crist Croeshoeliedig, ac mai yn y cariad rhyfedd hwn y mae ein gwaredigaeth ni ac unig obaith ein byd. Er mwyn ei Enw. Amen.

Emyn: 501 – O enw ardderchocaf

Y Fendith:

I'r hwn sydd yn ein caru ni, ac a'n rhyddhaodd ni oddi wrth ein pechodau â'i waed, ac a'n gwnaeth yn urdd frenhinol, yn offeiriaid i Dduw ei Dad, iddo ef y bo'r gogoniant a'r gallu byth bythoedd! Amen.